

TROED YN Y DRWS: CYDLYNYDD PROSIECT LLAWRYDD

Llawrydd: **44 Diwrnod @ £145**

Ffi: **£6380.00 yn cynnwys TAW, os yw'n berthnasol**

Ymrwymiad Amser: **ar gael Ionawr - Mehefin – 2-3 diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd**

Seiliedig yn swyddfa Ffilm Cymru Wales, Caerdydd ar gyfer Cyfarfodydd

Rhywfaint o deithio i amryw leoliadau ar-set yng Nghymru – cynigir treuliau os oes angen teithio y tu hwnt i ranbarth dinas Caerdydd

'Troed yn y Drws' yw rhaglen hyfforddiant Ffilm Cymru Wales ar gyfer rhai newydd i'r diwydiant. Mae'n rhaglen sydd wedi ennill gwobr, ac mae wedi'i thargedu i wella cynhwysiant y sector creadigol. Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at bobl dros 18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, hyfforddiant nac addysg ac sy'n profi caledi ariannol. Yn bwysig, rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithasau Tai a chymunedau lleol i gynorthwyo gyda recriwtio ac anghenion mynediad ein cyfranogwyr, gan gynnwys, er enghraifft, cludiant, gofal plant ac anghenion cymdeithasol eraill.

Mae Troed yn y Drws yn canolbwyntio'n benodol ar sgiliau crefft trosglwyddadwy fel gwaith coed, dylunio, gweinyddu, arlwygo, gwallt a cholur a gwisgoedd, a all wella cyflogadwyedd yn gyffredinol yn y sector creadigol a thu hwnt. Caiff lleoliadau eu cynnig ar gynyrchiadau proffesiynol fel ffilmau hir *Severn Screen*, *Apostle* gyda Michael Sheen a *Denmark* ar gyfer BBC Films a chyfres S4C/BBC Cymru, *Craith/Hidden*.

Cyn cychwyn ar y lleoliadau ar-set, bydd y cyfranogwyr yn derbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'r rôl, cyfrifoldebau ac ymddygiad disgwylidig ar y set, iechyd a diogelwch ac ymweliadau ymgyfarwyddo â stiwdios, cyfleusterau a chynyrchiadau eraill yng Nghymru.

Y RÔL

Rydyn ni'n chwilio am Gydylynydd Prosiect Llawrydd profiadol ar gyfer Troed yn y Drws i weithio gyda'n tîm ymroddedig a chynorthwyo i gyflwyno rhagor o gyfleoedd ar gynyrchiadau rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2019. Mae un yn ymwneud â ffilm hir o bwys yn ne Cymru a dau gynyrchiad drama i'r teledu yng nogledd a de Cymru.

Bydd ein partneriaid cyflawni yn cynnwys cwmnïau cynhyrchu, darlledwyr, Tai Pobl, Tai Calon ym Mlaenau Gwent a Grŵp Cynefin yng Nghaernarfon.

Byddai'r cydlynnydd yn gweithio i'r Rheolwr Prosiect, a fydd yn darparu hyfforddiant cyd-destunol er mwyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus ymgyswrtu ag ethos y rhaglen, y partneriaethau ac anghenion y rhai sy'n ymwneud â'r rhaglen. Ni fydd gofyn i chi ddylunio'r rhaglen.

GWYBODAETH A PHROFIAD: CYDLYNYDD PROSIECT LLAWRYDD

Rydyn ni'n chwilio am gyfathrebwr gwych sydd â phrofiad o gyflawni prosiectau hyfforddiant yn y diwydiannau creadigol ac sydd â dealltwriaeth ymarferol o amgylcheddau cynhyrchu teledu a ffilm.

- Gwybodaeth gadarn am dechnegau rheoli prosiect ar draws prosiectau aml-bartner a phrofiad y gellir ei ddangos o gydlynu prosiect neu reoli digwyddiadau, hyfforddiant neu weithgarwch prosiect;
- Byddwch yn drefnydd gwych, gyda ffocws ar ganlyniadau a'r gallu i yrru prosiect hyd nes ei fod wedi'i gwblhau'n llwyddiannus;
- Profiad y gellir ei ddangos o hyfforddiant/dysgu a datblygu yng nghyd-destun y diwydiannau creadigol;
- Profiad y gellir ei ddangos mewn amgylchedd ffilm a/neu deledu proffesiynol, gan ddarparu dealltwriaeth glir a chynhwysfawr o rolau set, ymddygiad disgwylidig a gofynion iechyd a diogelwch;
- Y gallu i feddwl yn gyflym a rheoli heriau wrth iddynt godi, gan weithio'n annibynnol;
- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl sydd â diddordeb mewn cychwyn yn y diwydiannau creadigol sy'n byw mewn caledi yng Nghymru;
- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl cymdeithasau tai a thai cymdeithasol yng Nghymru yn fanteisiol ond nid yn hanfodol;
- Profiad o weithio a chyfathrebu â chroestoriad eang o bartneriaid ar amryw lefelau;
- Sgiliau TG a gweinyddol – mae hyfedredd wrth ddefnyddio MS Office yn hanfodol;
- Mae rhuglder yn y Gymraeg (yn ysgrifenedig ac ar lafar) yn ddymunol iawn ond nid yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn.
- Mae trwydded yrru a'r gallu i gael mynediad i'ch cerbyd eich hun yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

RÔL A CHYFRIFOLDEBAU

Fel Cydlynnydd Prosiect byddwch yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o redeg prosiect Troed yn y Drws o ddydd i ddydd yn ystod y cyfnod paratoadol, yn y cyfnod o recriwtio hyfforddeion, ar gyfer darparu hyfforddiant i roi cyd-destun i'r lleoliad ac yn ystod lleoliad set proffesiynol, prysur ym maes ffilm a theledu. Byddwch yn:

- Cynorthwyo'r broses recriwtio a llunio rhestr fer ar gyfer Troed yn y Drws
- Gweithio ar y set gan gynnig cymorth bugeiliol i hyfforddeion a chynorthwyo i gyflwyno hyfforddiant
- Cyd-drafod rhwng partneriaid prosiect Ffilm Cymru Wales – gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ym maes cynhyrchu ffilm a theledu, cyllidwyr, ymgeiswyr a phersonél Cymdeithasau Tai
- Crynhoi a datblygu gwybodaeth cronfa ddata gan gynnwys gwybodaeth am randdeiliaid a chyfranogwyr
- Crynhoi deunyddiau monitro a gwerthuso, a chynorthwyo i lunio adroddiadau am y prosiect gan gynnwys datblygu cronfa ddata o ymgeiswyr / cyfranogwyr a data perthnasol a data amrywiaeth
- Cydlynu / rheoli digwyddiadau ar gyfer diwrnodau recriwtio i gyfranogwyr, gan gyd-drafod ag amrywiaeth o bartneriaid
- Ymateb i ymholiadau gan bartneriaid a darpar gyfranogwyr yn ystod y cyfnod cyflawni, gan gynnwys cofnodi'r ymholiadau
- Nodi a chyd-drafod â'r diwydiant ffilm a theledu a llysgenhadon cymunedol i gynorthwyo i gyflawni Troed yn y Drws
- Cynorthwyo i reoli a monitro gwariant y prosiect
- Cyfrannu at adroddiadau, cyfarfodydd a diweddariadau, gydag arweinwyr y prosiect ac ar eu cyfer

Dylech fod yn barod ac yn gallu, pan gwyd yr angen, i weithio oriau anghymdeithasol a hyblyg, er mwyn diwallu anghenion y prosiect, yn ogystal ag amgylchiadau'r ymgeiswyr llwyddiannus lle y bo'n ymarferol. Caiff cymorth bugeiliol ei ddarparu gan y Cymdeithasau Tai hefyd.

Bydd gofyn teithio rywfaint ledled Cymru yn y swydd hon.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, ac i wneud cais, cysylltwch â Faye Hannah yn uniongyrchol: faye@ffilmcymruwales.com

Dyddiad Cau: 12 hanner dydd, dydd Gwener 04^{ydd} Ionawr 2019

Dyddiad y Cyfweiliad: Dydd Iau 10^{fed} Ionawr 2018

Dyddiad Cychwyn: Dydd Mawrth 15^{fed} Ionawr 2019

Gofynnwn ichi gyflwyno llythyr o ddiddordeb sy'n amlinellu enghreifftiau clir o'ch sgiliau a'ch profiad perthnasol a sut maent yn cyfateb i rolau a chyfrifoldebau'r cydlynnydd, ynghyd â'ch CV cyfredol, i faye@ffilmcymruwales.com

YNGLŶN Â FFILM CYMRU WALES

Mae Ffilm Cymru Wales yn gorff ffilm cenedlaethol sy'n ymrwymedig i ddatblygu sector ffilm mwy cynhwysol yng Nghymru. Fel dirprwy loteri i Gyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI, gweithiwn ar draws agweddau Creu, Gweld a Dysgu byd ffilm, o gynorthwyo gwneuthurwyr ffilm i ddatblygu a chynhyrchu eu ffilmiau hir, i gynorthwyo arddangoswyr i ddangos ffilmiau, a galluogi ymarferwyr addysg ffilm i weithio gyda'r cyhoedd ledled Cymru, boed mewn ysgolion, ar-lein neu mewn lleoliadau cymunedol. Rydyn ni hefyd yn dylunio rhaglenni pwrpasol, ac yn eu cyflenwi'n uniongyrchol, er mwyn diwallu anghenion penodol, fel darparu cynllun ffilm cymunedol symudol – Ffilm yn Afan (filminafan.com) – ar gyfer cymunedau Cymoedd Afan Uchaf; neu hyfforddiant yn y diwydiant, fel rhaglen fentora'r farchnad i gynhyrchwyr, Film Junction, neu ein hamryw ddigwyddiadau lansio i rai sydd wedi'u tangynrychioli yn ein sector.

I wybod mwy, ewch i www.ffilmcymruwales.com ac www.footinthedoorwales.com